CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD DDYDD IAU 22 IONAWR 2004 YN NHŶ CARADOG, PLAS SAN ANDREAS, CAERDYDD

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. J E Davies (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
Mr. D H Roberts (Aelod)	Mr. C Chapman
	Mr. D Carr

1. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2003.

1.1 Yn amodol ar fân ddiwygiadau, cytunwyd ar y rhain.

2. Materion yn Codi.

2.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

3. Adolygiad o'r Ffiniau rhwng Sir Gaerfyrddin a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ardal Cwmllynfell – Drafft Terfynol yr Adroddiad.

3.1 **Cytunwyd** bod y Comisiwn yn fodlon cyflwyno ei argymhellion i'r ymgynghorwyr cyfreithiol ar gyfer sylwadau yn dilyn newidiadau a argymhellwyd i ddrafft terfynol yr adroddiad.

3.2 Os na cheir unrhyw sylwadau gan yr ymgynghorwyr cyfreithiol, gobeithir y gellir cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol erbyn diwedd mis Mawrth 2004.

4. Adolygiad o ran o'r Ffin rhwng Cymunedau Blaenhonddan a Dyffryn Clydach ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot – llythyr i'r Cynulliad (er gwybodaeth).

4.1 **Nodwyd** bod y Cynulliad yn disgwyl cyngor cyfreithiol cyn ymateb i gais y Comisiwn am gyfeiriadau o ran yr adolygiad arfaethedig hwn.

5. Astudiaeth Ymchwil i Rôl, Swyddogaethau a Photensial Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru yn y dyfodol.

5.1 Nododd y Comisiwn, gyda siom, nad ymgynghorwyd ag ef am y ddogfen, yn y cyfnod drafft na'r cyfnod terfynol. Roedd yr adroddiad wedi cyfeirio at y Comisiwn ac roedd yn cynnwys rhai gwallau sylfaenol wrth gyfeirio at swyddogaethau'r Comisiwn.

5.2 **Cytunwyd** i ymateb i'r llythyr a gan fynegi siom y Comisiwn at gael ei hepgor o'r ymarfer yn flaenorol, ac amlygu'r meysydd hynny lle roedd yn fwyaf defnyddiol i'r Comisiwn wneud sylw

6. Amserlen Adolygiadau.

6.1 **Cytunwyd** i addasu'r amserlen i rai o'r adolygiadau arfaethedig i ystyried safle cynhaliol y Cynulliad wrth iddo ddisgwyl cyngor cyfreithiol o ran yr adolygiadau cymunedol arfaethedig ym Mwrdeistrefi Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot.

7. Arolwg Gwefannau Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

7.1 Croesawodd y Comisiwn yr arolwg gwefannau, a chytunodd i ymateb i'r Bwrdd, gan nodi cynllun i weithredu'r argymhellion a gafwyd. **Cytunodd** Mr Davies a Mr Roberts i wirio defnydd yr iaith Gymraeg ar dudalennau cyffredinol y wefan

8. Offer TG dros ben.

8.1 **Nodwyd** bod y Comisiwn yn dal i gadw eitemau o offer TG yr ystyriwyd eu bod yn ddarfodedig.

8.2 **Nodwyd** bod sefydliad elusennol ym Mhorthmadog yn derbyn pob math o offer TG i'w hadnewyddu ar gyfer eu defnyddio gan y difreintiedig.

8.3 **Cytunwyd** y dylid ceisio caniatâd gan y Cynulliad i gael gwared ar y TG dros ben yn y modd hwn.

9. Adroddiad Cyllideb – 3^{ydd} Chwarter 2003/04.

9.1 **Cytunwyd** i dderbyn adroddiad y 3^{ydd} chwarter.

10. Gwariant Amcanol.

10.1 **Nodwyd** y dyfarnwyd dyraniad cyllid gan adran nawdd y Comisiwn i'r Comisiwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2004-2005.

10.2 **Nodwyd hefyd** bod gwariant amcanol y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn ariannol honno £17,000 yn is na'r hyn a ddyrannwyd.

10.3 **Cytunwyd** i'r Comisiwn dderbyn y dyraniad o'r adran nawdd, gan sicrhau y byddai'n rhaid cyflenwi'r gwariant amcanol ar gyfer 2005-2006 i'r Cynulliad gyda'r Cynllun Gweithredol, i sicrhau dyraniad mwy perthnasol i'r Comisiwn ar gyfer y cyfnod hwnnw.

11. Unrhyw Faterion Eraill.

11.1 Adroddiad Ymarferion Tendro

11.1.1 **Nodwyd** bod ymarferion tendro ar gyfer darparu gwasanaethau Argraffu a Chyfreithiol wedi eu cwblhau a bod ymarfer wedi dechrau i ddarparu peiriant llungopïo, a bod tendr ar gyfer y Gwasanaethau Cyfrifeg ar fin dechrau.

11.1.2 **Cytunwyd** y câi profion ar gyfer y tendr Iaith Gymraeg sydd ar droed eu darparu gan Mr Davies a Mr Roberts.

11.1.3 **Cydnabuwyd**, o ran yr ymarfer tendro Iaith Gymraeg, na ellir cyflwyno dogfennau penodol sydd eisoes wedi eu cyfieithu I'w defnyddio ar gyfer y prawf cyfieithu gan y byddai deiliaid presennol y contract yn cyflwyno cais ar gyfer y gwasanaeth. **Cytunwyd**, gan y byddai cryn dipyn o'r ddogfennaeth yn cael ei chyhoeddi'n ddwyieithog, y byddai gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gyfieithu gweddill y ddogfennaeth sydd yn Saesneg yn unig yn barod ar gyfer yr ymarfer nesaf.

11.2 Archwilio

11.2.1 **Nodwyd** y cafwyd y cytundeb lefel gwasanaeth (CLG) gan Wasanaeth Archwilio Mewnol (GAM) Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafwyd hefyd gopi o'u strategaeth archwilio ar gyfer y Comisiwn.

11.2.2 **Nodwyd** bod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cymeradwyo CLG y GAM, a fyddai yn ei le o 1 Ebrill 2004 ymlaen.

11.3 Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

11.3.1 **Nodwyd** bod Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus wedi dweud wrth Bwyllgor y Cynulliad dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus y dylid amserlennu'r Comisiwn yn ei raglen ddrafft, i drefnu cyfarfod rhwng y ddau gorff.

12. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf.

12.1 Trefnwyd y cyfarfod nesaf ar gyfer dydd Llun 1 Mawrth.